Pwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain

Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn: Mis Gorffennaf 2002 hyd fis Mawrth 2003

Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol. Fel y nodir yn Rheol Sefydlog 10.1, mae ardal ddaearyddol y Pwyllgor yn cwmpasu Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen a Bro Morgannwg.

2. Yn ystod trydedd blwyddyn y Pwyllgor, Plaid Cymru – The Party of Wales sy'n cadeirio'r Pwyllgor, a hynny yn unol â'r cytundeb rhwng grwpiau'r pleidiau. Etholwyd Owen John Thomas yn Gadeirydd.

3. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Peter Black, Lorraine Barrett, Rosemary Butler, Alun Cairns, Christine Chapman, Jane Davidson, David Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Davies, Sue Essex, Michael German, William Graham, Janice Gregory, John Griffiths, Brian Hancock, Jane Hutt, Pauline Jarman, Carwyn Jones, Peter Law, Huw Lewis, Dai Lloyd, David Melding, Jonathon Morgan, Rhodri Morgan, Lynne Neagle, Jenny Randerson, and Phil Williams.

Cylch Gwaith a Dull Gweithio

4. Rôl y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 10.2, yw rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad arnynt, a gwaith y cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau hynny.

5. Ar wahân i rai gwelliannau, mae'r Pwyllgor wedi parhau i weithio yn unol â'r arferion a sefydlwyd yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf. Yn benodol, mae wedi gweithredu fel un pwyllgor ledled y rhanbarth gan ganolbwyntio ar un thema benodol ym mhob cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn dal i bwysleisio rôl y cyhoedd yn ei gyfarfodydd. Cynhelir sesiwn 'meicroffôn agored' ym mhob cyfarfod i roi cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r panel ac i Aelodau'r Cynulliad. Pan fo'n briodol, mae'r Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn ateb ysgrifenedig oddi wrth Weinidog perthnasol y Cynulliad.

6. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor wedi cwrdd ym Mhontypridd, Abertyleri a Chaerdydd.

7. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i feithrin cysylltiadau â phartneriaid allweddol o'r rhanbarth yn y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Yn y tabl isod, gwelir enwau'r prif gyrff a gafodd eu gwahodd i gwrdd â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Crynodeb o'r cyfarfodydd

8. Isod, ceir crynodeb o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2002-03:

Dyddiad	**Lleoliad**	**Pwnc**
22 Tachwedd 2002	Pontypridd	Bu'r Pwyllgor yn ystyried meithrin darpariaeth ar gyfer gweithgareddau diwylliannol yn y rhanbarth. Cafwyd cyflwyniadau oddi wrth gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008, ynghyd â Chanolfan Mileniwm Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Daeth 46 aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.
24 Ionawr 2003	Abertyleri	Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. Cafwyd cyflwyniadau oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon i'r Anabl (Cymru), Cyngor Chwaraeon Cymru, Clwb Rygbi Glyn Ebwy ac Ymddiriedolaeth Pêl-droed yn y Gymuned Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Anfonwyd cofnodion y cyfarfod at y Pwyllgor Diwylliant fel rhan o'i ymarfer ymgynghori ar gyfer yr adolygiad. Daeth 39 aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

14 Mawrth 2003	Caerdydd	Pwnc y cyfarfod oedd tai cymdeithasol fforddiadwy. Cafwyd cyflwyniadau oddi wrth Brifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Caerdydd, Cymdeithas Tai Hafod a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru.

Blaenraglen waith

9. Bydd y Cadeirydd yn mynd ati, gan drafod â'r Aelodau, i baratoi rhaglen waith ar gyfer tymor newydd y Cynulliad, a hynny er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn dal i fod yn gyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau'r rhanbarth.

Pwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain **Mawrth 2003**